Bute Energy
Cymuned

# Grŵp Cyswllt Cymunedol Parc Ynni Twyn Hywel

## Dydd Mawrth 28 Ebrill 2026

### Presenoldeb:

**Yn Bresennol**

- Catryn Newton (CN) – Cyfarwyddwr Buddsoddiad Cymunedol a Chyfathrebu, Bute Energy
- Eluned Lewis (EL) – Rheolwr Buddsoddiadau Cymunedol, Bute Energy
- Kadun Rees (KR) – Cydlynydd Materion Allanol, Bute Energy
- Gareth Edwards (GE) – Rheolwr Cyflawni Prosiectau, Bute Energy
- Cath Waller (CW) - Knights Brown,
- Steven Price (SP) - Knights Brown
- Callum Maddocks (CMa) - Knights Brown
- Colin Mann (CM) – Cynghorydd Sir
- Alan Angel (AA) – Cynghorydd Sir
- Charlotte Bishop (CB) – Cynghorydd Sir
- Hywel Gornow (HG) – Cynghorydd Sir
- Sean Morgan (SM) - Cynghorydd Sir
- Brenda Miles (BM) – Cynghorydd Sir
- Kim Allen (KA) – Cyngor Cymuned Nelson
- Lyn Bowen (LB) – Clwb Rygbi Nelson
- Alison Palmer (AP) – GAVO
- Dave Brunton (DB) – Canolfan Galw Heibio Ieuenctid Senghenydd
- Pat Bull (PB) - Canolfan Galw Heibio Ieuenctid Senghenydd / Partneriaeth Cwm Aber
- Owen Hughes (OH) – Cynrychiolydd Ieuenctid Lleol

**Ymddiheuriadau**

- Matthew Tucker (MT) - Coleg y Cymoedd, Clwb Busnes Caerffili, Clwb Busnes RhCT
- Natalie Sargent (NS) – Yr Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

## Trosolwg o’r Agenda

1. Croeso a chyflwyniadau
2. Ymddiheuriadau
3. Diweddariad am y prosiect – Gareth Edwards, Rheolwr Cyflawni Prosiectau, Bute Energy / Knights Brown, Prif Gontractwr
4. Diweddariad y CIO a phenodi ymddiriedolwyr
5. Diweddariad y panel lleol
6. Diweddariad ynni cymunedol
7. Trafodaeth ar ddigwyddiadau lleol ym mis Mai a mis Mehefin
8. Unrhyw Fater Arall
9. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

## Trafodaethau a nodiadau

### 1. *Croeso a chyflwyniadau*

*Croesawodd CN bawb i'r cyfarfod a chynhaliwyd cyflwyniadau o amgylch y bwrdd..*

### 2. Diweddariad am y prosiect

*Darparodd GE ddiweddariad am y prosiect a throsolwg o’r rhaglen adeiladu. Edrychwch ar y sleidiau am drosolwg manwl.*

- Cadarnhaodd GE fod y broses gaffael wedi'i chwblhau gyda'r holl brif gontractwyr yn eu lle.
- Rhoddodd GE drosolwg o'r cysylltiad grid. Mae'r cysylltiad grid wedi'i gadarnhau gyda'r Grid Cenedlaethol. Mae'r Grid Cenedlaethol wedi bod yn gwneud gwaith yn is-orsaf Cilfynydd i ehangu'r safle, ac mae'r gwaith bron â chael ei gwblhau.
- Aeth GE drwy'r 3 thîm rheoli adeiladu: Natural Power, Etive Ecology, a Headland Archaeology. NP yw'r canolbwynt ar gyfer rheoli'r holl gontractau ar y safle. Mae Etive Ecology wedi cwblhau'r holl arolygon ecolegol cyn-adeiladu ac wedi cynhyrchu mapiau cyfyngiadau ac unrhyw ofynion lliniaru.
- Nododd CN y gall y grŵp ofyn i unrhyw gontractwr fynychu'r grŵp ac ateb unrhyw gwestiynau.
- Rhoddodd GE drosolwg o'r amserlen adeiladu. Y gwaith cyntaf i ddechrau fydd adeiladu llwybrau mynediad. Wedyn bydd y gwaith adeiladu’n symud ymlaen tuag at ail hanner 2026, gyda mynediad a gwaith ar y tir a sylfeini’n cael eu

hadeiladu. Bydd gwaith ceblau o dan y ddaear yn dechrau o fis Gorffennaf ymlaen.

*Wedyn rhoddodd SP drosolwg o Knights Brown, ac wedyn CW, a roddodd drosolwg o ymrwymiad gwerth cymdeithasol Knights Brown. Edrychwch ar y sleidiau i gael trosolwg manwl.*

- Yn ei gyflwyniad, nododd SP fod Knights Brown wedi'i leoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a bod ganddynt brofiad helaeth o weithio ar ffermydd gwynt ledled y DU. Fel contractwr Seilwaith Peirianneg Sifil, bydd yn gyfrifol am bethau fel dylunio ac adeiladu llwybrau mynediad, lloriau caled a cheblau o dan y ddaear ar draws y safle. Maent hefyd yn gyfrifol am iechyd a diogelwch ar y safle.
- Amlinellodd CW ymrwymiad gwerth cymdeithasol Knights Brown a gosododd ei hun fel y prif gyswllt ar gyfer unrhyw gwestiynau parhaus ynghylch gwaith adeiladu Knights Brown.

*Gofynnodd yr aelodau gwestiynau.*

- Gofynnodd SM pwy fyddai'n cyflenwi'r tyrbinau? Cadarnhaodd GE mai Nordex fyddai'r cyflenwr tyrbinau.
- Gofynnodd KA a oes gan Knights Brown brofiad o weithio ar dyrbinau gwynt dros 200m. CAM GWEITHREDU: SP i gadarnhau
- Gofynnodd CM a fyddai'r caniatâd draenio ar gyfer sylfaen y tyrbin yn unig? Dywedodd GE fod y caniatâd ar gyfer ffin gyfan y llinell goch.
- Nododd SM bryder ynghylch traffig i lawr Ffordd Llanfabon. Dywedodd SP y byddai'n fodlon edrych ar y mater a byddai'n ei godi gyda'r is-gontractwyr. Nododd CW ei bod wedi anfon e-bost at y cwmni yn gynharach yr wythnos honno ynghylch terfynau cyflymder, a bydd eu tîm yn codi hyn eto.
- Gofynnodd CB sut bydd y timau'n gwarchod safleoedd hanesyddol ar y safle ac yn diogelu bywyd gwyllt. Dywedodd SP fod ecolegwyr a thimau archaeolegol eisoes wedi nodi ardaloedd sensitif ar draws y safle cyn i unrhyw waith adeiladu ddechrau. Bydd yr holl fesurau lliniaru yn eu lle a byddant yn cael eu dilyn. Bydd safleoedd archaeolegol yn cael eu monitro gan Headland Archaeology, a bydd Etive Ecology yn nodi'r safleoedd ecoleg. Nododd GE fod Heneb wedi bod yn ymwneud â chofnodi safleoedd ar ffin y llinell goch.
- Gofynnodd CB beth yw'r nodweddion sensitif tuag at yr is-orsaf. Nododd GE fod rhai'n cynnwys coetiroedd hynafol, eiddo perchnogion tir a rhwydweithiau ffyrdd presennol.
- Gofynnodd CM am sicrwydd y bydd yr holl amodau cynllunio yn cael eu cynnal. Nododd GE y bydd Natural Power yn sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth ac amodau cynllunio.
- Mynegodd KA bryder ynghylch difrod i ffordd breifat ger yr is-orsaf a gofynnodd i Bute Energy / Knights Brown edrych i mewn i'r mater. Mae KA wedi anfon

llythyrau'n cwyno at yr awdurdod lleol, sydd heb gael eu hanfon ymlaen. CAM GWEITHREDU: Bute i adolygu'r mater. CAM GWEITHREDU: KA i anfon unrhyw gwynion yn uniongyrchol at Bute Energy.
- Gofynnodd CB a fydd unrhyw arian ar gyfer adfer unrhyw ffyrdd sydd wedi'u difrodi i'w cyflwr gwreiddiol. Nododd GE, fel rhan o'r amodau cynllunio, fod cynllun i gytuno ar arolygon parhaus o'r rhwydwaith ffyrdd cyn i'r gwaith ddechrau ac wedyn yn rheolaidd unwaith y bydd y gwaith wedi dechrau ar y safle. Wedyn darperir yr arolygon i'r awdurdod lleol, ac mae'r amod cynllunio'n nodi rhwymedigaeth i adfer y ffyrdd os bydd unrhyw ddifrod yn cael ei nodi.
- Gofynnodd AA pwy fydd yn goruchwylio iechyd a diogelwch ar y safle unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi dechrau? Nododd SP y bydd Knights Brown yn gyfrifol am iechyd a diogelwch yn ystod dechrau'r gwaith adeiladu ac y bydd Natural Power yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn cael ei dilyn drwy gydol yr amserlen adeiladu.
- Gofynnodd CB a fydd coed sy'n cael eu torri'n cael eu hailblannu? Dywedodd CN y bydd Cynllun Rheoli Cynefinoedd ar waith, a fydd yn sicrhau'r Budd Net cyfreithiol rwymol ar gyfer Bioamrywiaeth ar draws y safle. Bydd hyn yn sicrhau bod y parc ynni'n gwella bioamrywiaeth ar draws y safle, drwy ystod o fesurau a nodwyd.

Camau Gweithredu

- **SP: Cadarnhau pa brosiectau y mae Knights Brown wedi gweithio arnynt gydag uchder blaen tyrbin o 200m neu fwy.**
- **Bute Energy: Nododd yr aelodau yr hoffent i Etive Ecology a Headland Archaeology fynychu cyfarfod yn y dyfodol.**
- **SP/CW: Trafod pwysigrwydd is-gontractwyr yn gyrru yn unol â therfynau cyflymder lleol.**
- **Bute: Canfod gwybodaeth am unrhyw ddifrod i'r ffordd breifat y soniodd KA amdani.**
- **KA i anfon unrhyw gwynion yn uniongyrchol at Bute Energy.**

## 3. Diweddariad y CIO a phenodi ymddiriedolwyr

*Rhoddodd EL y wybodaeth ddiweddaraf am benodi ymddiriedolwyr i'r CIO newydd ei ffurfio.*

- Cyhoeddodd EL enwau ymddiriedolwyr y CIO yn gyhoeddus, sef Chris Johns, Catherine Miller, Tom Jones ac Aled Lewis, gyda Catryn Newton a Jamie Duff o Bute Energy fel cydymddiriedolwyr corfforaethol. Mae'r elusen yn y cam olaf o gael ei chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau.

Bute Energy Cymuned

## 4. Diweddariad y panel lleol

*Rhoddodd EL y wybodaeth ddiweddaraf i'r GCC am recriwtio'r panel lleol cyn ei lansiad cyhoeddus.*

- Nododd EL y bydd y broses recriwtio ar gyfer panel grantiau lleol Twyn Hywel yn agor ar 29 Ebrill ac yn rhedeg tan 8 Mehefin. Mae Bute Energy yn chwilio am 8 i 12 aelod o'r gymuned sydd â phrofiad amrywiol a phrofiad byw i wneud cais am y panel.
- Nododd EL y byddai'n dda cael defnyddwyr gwasanaeth lleol, yn ogystal â'r rhai sy'n eu rhedeg, i wneud cais. Drwy dargedu defnyddwyr gwasanaeth, bydd y bwrdd yn sicrhau bod ganddo gynrychiolaeth eang o'r gymuned.
- Gofynnodd EL i'r aelodau rannu unrhyw wybodaeth am ddigwyddiadau lleol, er mwyn i dîm Bute Energy fynychu a chyhoeddi recriwtio'r panel grantiau lleol.
- Esboniodd EL y bydd ymgyrch ddigidol a chorfforol yn digwydd. Bydd ymgyrch ddigidol yn cael ei chynnal ar y cyfryngau cymdeithasol, a bydd copïau papur o lyfrynnau'n cael eu dosbarthu i gynghorau cymuned. CAM GWEITHREDU: EL i anfon copïau papur o'r llyfrynnau at gynghorau cymuned. CAM GWEITHREDU: KR i e-bostio gwybodaeth recriwtio'r panel lleol at aelodau wrth lansio.

Camau Gweithredu

- **EL: Anfon copïau papur o'r llyfryn recriwtio at gynghorau cymuned.**
- **KR: Anfon gwybodaeth ar e-bost at aelodau'r GCC am y recriwtio.**

## 5. Diweddariad ynni cymunedol

*Rhoddodd EL y wybodaeth ddiweddaraf am fentrau ynni cymunedol, gan gynnwys astudiaethau dichonoldeb ar gyfer prosiectau micro-hydro a solar, strategaethau cyllido, a manteision posibl i randdeiliaid lleol, gyda mewnbwn technegol gan gydweithwyr yn Bute Energy.*

- Nododd EL fod astudiaeth ddichonoldeb bwrdd gwaith 5km wedi'i chynnal i nodi lleoliadau addas ar gyfer prosiectau ynni cymunedol. Mae Bute Energy hefyd wedi sefydlu gweithgor mewnol, gydag arbenigedd staff a chadwyn gyflenwi, i gefnogi'r fenter.
- Nododd EL fod Bute Energy wedi manteisio ar werth cymdeithasol ychwanegol gan Dulas i edrych yn fanylach ar brosiect micro-hydro yn Nant Llanbradach, sydd o fewn ffin llinell goch y safle. Bydd Dulas nawr yn cwblhau astudiaethau i fesur y llif, gan benderfynu a fyddai'r prosiect yn hyfyw.
- Rhoddodd EL ddiweddariad hefyd ar brosiectau solar. Mae'r tîm yn edrych ar brosiect solar bach o dan 5 MW, gan ddidoli lleoliadau'n seiliedig ar gyfyngiadau technegol a pherchnogaeth tir. Bydd y cyllid yn cyfuno cronfeydd budd cymunedol, grantiau a chyllid moesegol gyda gwaith parhaus i gwblhau'r model yn derfynol.

- Esboniodd EL y bydd y prosiectau ynni cymunedol yn cysylltu â'r grid, gyda manteision gan gynnwys trydan am bris is, cyfraniadau i'r gronfa gymunedol, a difidendau i gyfranddalwyr lleol. Mae modelau niferus yn cael eu hystyried a bydd y tîm yn hwyluso gwneud penderfyniadau gwybodus.

*Cafwyd trafodaeth fer, gyda'r aelodau'n gofyn cwestiynau.*

- SM: Sut byddai'r modelau hyn yn gweithio i bobl leol? Nododd EL fod y tîm yn edrych ar nifer o wahanol fodelau perchnogaeth a mentrau ehangach. Mae'r cynlluniau'n cynnwys archwiliadau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau lleol, fel canolfannau cymunedol. Mae archwiliadau'n datgloi cymhwysedd ar gyfer cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gwelliannau fel pympiau gwres ffynhonnell aer a storfeydd batri. Nod y strategaeth yw meithrin arbenigedd ac ehangu prosiectau dros amser, gan gynnwys solar ar y to a thechnolegau eraill, gyda ffocws ar gefnogi ysgolion, canolfannau cymunedol, a gwasanaethau i leihau costau ynni a gwella gwydnwch. Ychwanegodd CN y bydd yr opsiynau ynni cymunedol hefyd yn gweithredu fel asedau cynhyrchu incwm i'r gymuned fod yn berchen arnynt.

## 6. Trafodaeth ar ddigwyddiadau lleol ym mis Mai a mis Mehefin

*Trafodwyd yr eitem hon yn ystod yr eitemau eraill ar yr agenda.*

## 7. *Unrhyw Fater Arall*

- Diolchodd yr holl aelodau i Alison Palmer am ei chyfraniad i'r cyfarfodydd a dymuno ymddeoliad hapus iddi. CAM GWEITHREDU: KR i ychwanegu olynydd Alison at restr e-bost y GCC.
- Hysbysebodd SM ddangosiad lleol y Briff Argyfwng Cenedlaethol yn Y Banc yng Nghaerffili ar 17 Mai. CAM GWEITHREDU: KR i rannu manylion mewn e-bost gydag aelodau.
- Gofynnodd KA pryd byddai'r gwaith adeiladu'n dechrau'n swyddogol. Atebodd GE y bydd yn dechrau o fis Mai 2026 ymlaen.

## 8. *Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf*

**Dyddiad:** 7 Gorffennaf

**Amser:** 18:30

**Lleoliad:** I'w gadarnhau

Daeth y sesiwn i ben.

## Camau Gweithredu o’r cyfarfod

| Cam Gweithredu | Arweinydd |
|---|---|
| E-bostio sleidiau, taflenni a gwybodaeth recriwtio at bob aelod | KR |
| Cadarnhau pa brosiectau y mae Knights Brown wedi gweithio arnynt gydag uchder blaen tyrbin o 200m neu fwy | SP/CW |
| Gwahodd Etive Ecology a Headland Archaeology i gyfarfod yn y dyfodol | SP |
| Trafod gydag is-gontractwyr bwysigrwydd gyrru yn unol â therfynau cyflymder lleol | KR |
| Ymchwilio i unrhyw ddifrod i ffyrdd preifat a chysylltu â KA | KR |
| Anfon cwynion yn uniongyrchol at Bute Energy | SP/CW |
| Anfon copïau papur o'r llyfryn recriwtio at gynghorau cymuned | KA |
| Hysbysu EL am unrhyw ddigwyddiadau lleol dros y misoedd nesaf | EL |
| Ychwanegu aelod newydd y GCC ar ran GAVO at y gadwyn e-bost | Pawb |